Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Rhosneigr
# Rhosneigr
# Ynys Môn
# LL64 5XA

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 15/01/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Rhosneigr ym mhentref Rhosneigr ar Ynys Môn. Mae 42 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn rhan-amser i'r dosbarth meithrin yn y mis Medi yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Caiff bron pob un o'r disgyblion eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg, ac fe gaiff ychydig iawn ohonynt eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ysgol yn nodi bod 16% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae bron pob disgybl o gefndir ethnig gwyn.

Mae dau athro amser llawn ac un athro rhan-amser yn yr ysgol ar hyn o bryd, sy'n addysgu mewn tri dosbarth oedran cymysg. Mae tua 7% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 19% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Dechreuodd y pennaeth dros dro ar ei swydd ym Medi 2015 a chynhaliwyd yr arolygiad diwethaf ym Mai 2010.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Rhosneigr yn 2015-2016 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,845 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £6,763 a'r isafswm yw £2,889. Mae Ysgol Gynradd Rhosneigr yn y 15fed safle allan o'r 47 ysgol gynradd yn Ynys Môn o ran y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Bernir bod perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol
- mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol iawn at eu gwaith
- mae athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol a diddorol i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion
- mae'r addysgu yn gyson dda
- mae'r ysgol yn gymuned bleserus a gofalgar, sy'n rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu iechyd a lles disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth dros dro yn darparu gweledigaeth glir a phwrpasol, y mae'n ei rhannu'n llwyddiannus â staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni
- mae diwylliant sy'n datblygu o gydweithio a gwaith tîm ymhlith pob un o'r staff a pharodrwydd i dderbyn syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio
- mae cynllunio gwelliant yn nodi blaenoriaethau priodol sy'n cynnwys ffocws penodol ar godi safonau a gwella darpariaeth
- mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau strategol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion
- mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau Cymraeg llafar disgyblion ymhellach

A2 Gwella presenoldeb

A3 Gwella datblygiad graddol medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A4 Datblygu rôl y corff llywodraethol ymhellach o ran dwyn yr ysgol i gyfrif

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn gyffredinol, mae gan bron bob disgybl sy'n dechrau yn y dosbarth derbyn fedrau sylfaenol da. Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn ddysgwyr awyddus a brwdfrydig, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Yn eu gwersi, ac wrth drafod eu gwaith, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hyn y maent wedi'i ddysgu mewn gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl yn dda; maent yn caffael gwybodaeth yn briodol ac yn ei chymhwyso'n llwyddiannus i sefyllfaoedd newydd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau gwrando da ac maent yn gwrando'n dda ar ei gilydd mewn sesiynau dosbarth cyfan ac mewn parau a gwaith grŵp. Defnyddiant eu medrau siarad yn dda i ateb cwestiynau sy'n cael eu gofyn gan oedolion, ac maent yn siarad yn hyderus am eu profiadau dysgu. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o eirfa estynedig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus mewn ystod eang o sefyllfaoedd. Maent yn awyddus i siarad am eu gwaith, ac yn mynegi eu barn yn dda. Mae llawer ohonynt yn gwrando'n dda ar syniadau eu cyfoedion ac yn dal ati i ganolbwyntio am gyfnodau priodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu medrau darllen yn dda. Maent yn cymhwyso gwybodaeth ffonig yn effeithiol ac yn datblygu ystod o strategaethau addas sy'n eu galluogi i fwynhau darllen a datblygu agweddau cadarnhaol fel darllenwyr. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus gyda rhuglder a dealltwriaeth dda. Maent yn mwynhau llyfrau a darllen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn rhoi darnau byr o ysgrifennu yn eu trefn yn effeithiol i ddisgrifio digwyddiadau ac ysgrifennu storïau ac adroddiadau syml. Maent yn datblygu medrau sillafu da ac yn defnyddio atalnodi'n gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod addas o atalnodi gyda chywirdeb cynyddol, ac maent yn ysgrifennu'n dda gan ddefnyddio ystod o strwythurau brawddeg a geirfa ddiddorol. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n hyderus a chywir mewn amrywiaeth o ffurfiau. Maent yn atgyfnerthu a gwella'u medrau ysgrifennu'n dda i greu darnau estynedig o ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, yn enwedig mewn gwaith thematig. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion yn amrywio ar draws yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da yn y Gymraeg. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ac ysgrifennu brawddegau syml yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o batrymau brawddeg a

geirfa yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen llyfrau Cymraeg yn gymwys gyda lefel briodol o ddealltwriaeth yn unol â'u hoedran a'u gallu. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dilyn cyfarwyddiadau yn hyderus ac yn ateb cwestiynau pan gânt eu gofyn; fodd bynnag, maent yn amharod i siarad Cymraeg yn rheolaidd â'i gilydd, gydag oedolion yn yr ystafell ddosbarth, a'r tu allan iddi.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Maent yn adio a thynnu degau ac unedau yn gywir, yn dyblu a haneru rhifau'n gywir, yn mesur mewn centimedrau a milimedrau, yn adnabod siapiau dau a thri dimensiwn a'u priodweddau, ac yn deall ffracsiynau syml yn dda. Gallant gyflwyno data ar ffurf siart cyfrif a graff bloc, a datrys problemau mathemategol syml. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mewn gwersi mathemateg yn dda, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda. Defnyddiant ystod eang o strategaethau cyfrif yn y pen i ddatrys problemau rhifau a geiriau sy'n gynyddol anodd yn hyderus. Defnyddiant eu dealltwriaeth gadarn o werth lle i adio, tynnu, lluosi a rhannu rhifau i fyny i 1,000 yn gywir. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth gadarn o'r berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn ystod o gyd-destunau. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau rhifedd yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae niferoedd y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 wedi bod yn fach. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg a chyfartaleddau cenedlaethol. Yn yr un modd, mae'r niferoedd yn rhy fach i wneud cymariaethau rhesymol rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad disgyblion ar ddeilliant disgwyliedig 5 a'r deilliant 6 uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn iaith bob blwyddyn. Ar gyfer y nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg fel mamiaith, yn y ddwy flynedd ddiwethaf, fe wnaeth perfformiad yr ysgol ei gosod yn y 25% uchaf bob blwyddyn. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf.

Dros yr un cyfnod, ni lwyddodd yr un disgybl i gyflawni'r deilliant 6 uwch mewn Cymraeg. Mewn datblygiad mathemategol, gosododd perfformiad disgyblion ar y deilliant uwch yr ysgol yn y 25% uchaf mewn tair o'r pedair blynedd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf bob blwyddyn o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar gyfer y nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n cael eu hasesu mewn Cymraeg fel mamiaith, mae perfformiad yr ysgol wedi ei gosod yn y 25% isaf. Nid yw'r ysgol wedi asesu unrhyw ddisgyblion yn Gymraeg yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Dros yr un cyfnod, fe wnaeth perfformiad ar y lefel uwch na'r disgwyl mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth osod yr ysgol yn y 25% uchaf a'r 50% uwch mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chadw'n heini. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os byddant yn poeni neu'n gofidio.

Mae safon ymddygiad yn dda ac mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos parch at ei gilydd ac at oedolion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cydweithredu'n dda wrth weithio mewn parau neu mewn grwpiau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos agweddau cadarnhaol a balchder yn eu gwaith ac yn dyfalbarhau â'u tasgau am gyfnodau estynedig. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau cael dealltwriaeth well o ba mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd priodol i leisio barn a mynegi pryder. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Maent yn casglu barn a sylwadau cyd-ddisgyblion ac yn falch o'u hymdrechion i wella offer chwarae a dylanwadu ar brydau ysgol. Maent yn codi arian ar gyfer gwahanol elusennau fel Plant mewn Angen yn llwyddiannus. Mae'r pwyllgor eco yn weithgar o ran codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd arbed ynni ac ailgylchu gwastraff.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rôl weithredol mewn nifer o weithgareddau cymunedol ac yn ymfalchïo yn y cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn y pentref. Enghraifft dda o hyn yw rhan yr ysgol yng Ngwasanaeth Cofio blynyddol y pentref.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Fodd bynnag, mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, mae lefelau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 50% is neu'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn dda. Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol a diddorol i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy'r ysgol.

Ar y cyfan, mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn ei chynlluniau tymor hir. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd na'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Ceir ystod berthnasol o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn pynciau a meysydd dysgu eraill.

Mae'r amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys clybiau fel yr Urdd ac ymweliadau â lleoedd diddorol, yn ymestyn a chefnogi dysgu disgyblion yn dda. Mae gwaith cartref rheolaidd, gan ddefnyddio 'cofnodion dysgu', yn adeiladu'n bwrpasol ar yr hyn y mae disgyblion yn ei ddysgu yn y dosbarth.

Ceir darpariaeth briodol i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan, ond nid ydynt yn annog disgyblion ddigon i ddefnyddio'u medrau Cymraeg llafar yn rheolaidd mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant Cymru yn dda iawn, ac yn defnyddio gwaith arlunydd lleol, er enghraifft, yn sail ar gyfer gwaith creadigol o safon dda iawn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gadarnhaol ar draws y cwricwlwm. Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i ddysgu am wledydd a diwylliannau eraill fel Tsieina, Affrica ac Awstralia. Ceir pwyllgor eco sefydledig, sy'n cefnogi dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd ailgylchu, arbed ynni a gwella'r amgylchedd.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol. Mae gan bob un o'r athrawon wybodaeth drylwyr am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu. Maent yn cynllunio'u gwersi'n dda. Mae cynlluniau'n fanwl a dychmygus ac yn nodi amcanion dysgu'n glir. Mae athrawon yn rhannu'r amcanion dysgu yn glir gyda'r disgyblion fel bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn y maent yn disgwyl iddynt ei wneud yn ystod y sesiwn. Mae athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu'n dda ac yn cyflwyno gwersi mewn ffordd fywiog a brwdfrydig. Trwy ymyrraeth bwrpasol a holi medrus, mae athrawon a staff cymorth yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac yn datblygu eu medrau dysgu'n dda. Mae pob un o'r oedolion yn fodelau rôl da ar gyfer y Gymraeg.

Mae pob un o'r staff yn rhoi adborth llafar clir a rheolaidd i ddisgyblion ac yn ymyrryd yn sensitif pan fydd angen. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi sylwadau cadarnhaol ar eu cyflawniadau. Yn yr arfer orau, mae marcio yn helpu disgyblion i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae athrawon yn dechrau annog disgyblion i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dod yn gliriach ynglŷn â'u targedau personol.

Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cofnodi eu cynnydd yn fanwl. Defnyddiant system olrhain yr ysgol yn effeithiol i nodi cyflawniadau disgyblion a chynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu profiadau dysgu.

Mae adroddiadau i rieni yn fanwl a llawn gwybodaeth, gyda chyfleoedd da i ddisgyblion a rhieni ymateb. Maent yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar, ddymunol a gofalgar, sy'n rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu iechyd a lles disgyblion.  Mae'n gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac yn galluogi disgyblion i gadw'n heini.  Mae enghreifftiau da yn cynnwys annog disgyblion i ymweld â'r siop ffrwythau bob dydd a dewis bwydydd iach amser cinio.

Mae hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus yn rhan annatod o'r diwrnod ysgol ac fe geir cyfleoedd da i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb a datblygu dealltwriaeth glir o fyw a gweithio gyda'i gilydd mewn cymuned.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol ag ystod o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol fel y gwasanaeth lles addysg a nyrs yr ysgol.  Mae'r cysylltiadau hyn yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion a rhieni.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer nodi a monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae'n nodi anghenion disgyblion yn gynnar ac yn rhoi strategaethau ymyrraeth priodol ar waith.  Mae'r rhain yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da dros gyfnod.  Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir sy'n mynd i'r afael ag anghenion disgyblion yn briodol.  Mae staff yn cynnwys rhieni'n llawn wrth adolygu cynllun addysg eu plentyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion disgyblion ac nid ydynt yn destun pryder.

Er bod yr ysgol wedi gweithio'n galed yn ddiweddar i amlygu pwysigrwydd gwella presenoldeb trwy gylchlythyrau a rhannu gwybodaeth, mae cyfraddau presenoldeb yn parhau i fod yn isel o gymharu â chyfraddau presenoldeb ysgolion tebyg.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, sy'n trin disgyblion yn gyfartal.  Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod a dathlu amrywiaeth a chreu ethos lle mae parch tuag at ei gilydd yn werth craidd.  Caiff pob disgybl yr un cyfle i elwa ar y cwricwlwm a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae adeiladau'r ysgol yn bodloni anghenion ei disgyblion yn dda.  Ceir digon o le mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol i gyflwyno pob agwedd ar y cwricwlwm.  Ceir adnoddau o ansawdd da ar gyfer pob maes sy'n cefnogi addysgu a dysgu yn effeithiol.  Enghreifftiau da o hyn yw llyfrgell yr ysgol sydd â chyflenwad da o lyfrau, ac adnoddau i ddatblygu medrau TGCh disgyblion.  Mae staff wedi datblygu'r meysydd dysgu yn yr awyr agored yn briodol er mwyn gwneud defnydd effeithiol o'r lle sydd ar gael a gwella profiadau dysgu a chwarae disgyblion.

Mae arddangosfeydd ysgogol a deniadol o waith athrawon a chyflawniadau a llwyddiannau disgyblion mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu diddorol ac yn cefnogi dysgu yn effeithiol.  Maent hefyd yn annog disgyblion i ymfalchïo yn eu gwaith.

Mae safon glanweithdra yn uchel, ac mae staff yn cynnal adeilad a thir yr ysgol yn dda. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth dros dro a benodwyd yn ddiweddar yn darparu gweledigaeth glir a phwrpasol, y mae hi wedi ei rhannu'n llwyddiannus â staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni. Yn y cyfnod byr ers ei phenodi, mae wedi cyflwyno nifer o fentrau i godi safonau, yn enwedig mewn llythrennedd, rhifedd ac asesu ar gyfer dysgu.

Mae diwylliant o gydweithio a gwaith tîm yn datblygu'n dda yn yr ysgol, ac mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn rhannu dealltwriaeth ar y cyd o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Ceir parodrwydd amlwg i dderbyn syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio. Mae hyn eisoes wedi arwain at welliant yng ngallu disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae eu cyfrifoldebau cwricwlaidd diweddar yn dechrau rhoi dealltwriaeth well iddynt o ddata o brofion ac asesiadau cenedlaethol, perfformiad yr ysgol o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, cryfderau a diffygion presennol yr ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae gallu llywodraethwyr i herio'r ysgol a'i dwyn i gyfrif am ei pherfformiad.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i fentrau addysgol lleol a chenedlaethol, yn enwedig o ran codi safonau mewn llythrennedd a rhifedd ac o ran rhoi'r Siarter Iaith Gymraeg ar waith.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn glir ac yn nodi blaenoriaethau priodol yn dda, sy'n cynnwys ffocws penodol ar godi safonau a gwella darpariaeth.

Wrth lunio'r adroddiad hunanarfarnu, mae'r pennaeth dros dro wedi sefydlu dull pwrpasol y mae pob aelod o staff, y llywodraethwyr, y disgyblion a'r rhieni yn cyfrannu ato mewn ffordd ddefnyddiol. Mae'r broses yn defnyddio data perfformiad, craffu ar lyfrau ac arsylwadau gwersi yn effeithiol i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu.

Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun yn gynhwysfawr, yn nodi targedau perthnasol a phenodol ac yn cynnwys meini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, gofynion cyllid a dulliau ar gyfer monitro cynnydd.

## Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda'i phartneriaid i gefnogi dysgu a lles disgyblion. Ceir cysylltiadau cryf â rhieni a'r gymuned leol fel ei gilydd, ac mae'r ysgol yn elwa'n dda ar y symiau sylweddol o arian a godir bob blwyddyn i wella adnoddau a thalu am ymweliadau addysgol.

Ceir cysylltiadau da â'r grŵp meithrin cyn-ysgol sy'n cyfarfod ar safle'r ysgol. Mae gweithgareddau fel disgos ar y cyd yn helpu disgyblion i drosglwyddo'n hyderus i'r dosbarth meithrin. Mae gan yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus iawn â'r ysgol uwchradd leol. Mae trefniadau pontio cryf ar waith, sy'n galluogi disgyblion i drosglwyddo'n ddidrafferth i'w cam dysgu nesaf.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ysgolion cynradd lleol eraill i gynllunio ar y cyd a chyfnewid arfer dda. Mae safoni a chymedroli gwaith disgyblion wedi bod yn broses gadarnhaol, gan helpu athrawon i gael dealltwriaeth well o'r safonau a ddisgwylir ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da ag ystod o sefydliadau cymunedol fel yr eglwysi lleol. Mae aelodau o wahanol enwadau yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gymryd rhan mewn gweithredoedd o gyd-addoli. Mae hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion. Mae gwaith arall, fel creu mosäig yn yr Olygfan Pwll Cychod lleol, yn helpu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o ystod o wahanol weithgareddau sy'n digwydd yn eu pentref.

## Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu profiadol i fodloni anghenion pob disgybl yn dda. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn cynnig cymorth gwerthfawr i athrawon, ac fe gânt ddylanwad cadarnhaol ar wella cyrhaeddiad disgyblion.

Mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad athrawon. Mae pob un o'r athrawon yn elwa ar hyfforddiant addas, sy'n cael ei drefnu ar sail anghenion a blaenoriaethau'r ysgol. Mae gan bob un o'r athrawon drefniadau cynllunio, paratoi ac asesu priodol.

Mae'r ysgol yn rhan o gymuned ddysgu effeithiol. Mae hyn yn rhoi cyfle da i athrawon rannu arfer dda a datblygu syniadau newydd, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith sy'n gysylltiedig â gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion a datblygu rhaglen bontio gynhwysfawr ar gyfer disgyblion pan fyddant yn symud i'r ysgol uwchradd.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae hyn wedi arwain at gymorth gwell ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim er mwyn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Yng ngoleuni'r ddarpariaeth dda yn yr ysgol a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6602164 - Ysgol Gynradd Rhosneigr**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 56 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.4 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 6 | 9 | 7 | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 100.0 | 100.0 | 85.7 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 9 | 6 | 5 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 50.0 | 55.6 | 50.0 | 60.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 9 | 7 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 85.7 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 66.7 | 55.6 | 28.6 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 9 | 7 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 50.0 | 44.4 | 71.4 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6602164 - Ysgol Gynradd Rhosneigr**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 56 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.4 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 10 | 5 | 10 | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 5 | 10 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | * | * | * |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 5 | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 30.0 | 20.0 | * | * |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 5 | 10 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | * | * | * |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 5 | 10 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 70.0 | * | * | * |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 26 | 25<br>96%<br>98% | 1<br>4%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 26 | 24<br>92%<br>92% | 2<br>8%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 26 | 26<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 26 | 24<br>92%<br>97% | 2<br>8%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 26 | 23<br>88%<br>96% | 3<br>12%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 26 | 25<br>96%<br>96% | 1<br>4%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 26 | 26<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 26 | 25<br>96%<br>98% | 1<br>4%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 26 | 23<br>88%<br>91% | 3<br>12%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 26 | 25<br>96%<br>95% | 1<br>4%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 25 | 23<br>92%<br>77% | 2<br>8%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 25 | 23<br>92%<br>84% | 2<br>8%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 16 | 11 | 4 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 69% | 25% | 6% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 15 | 11 | 3 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 20% | 0% | 7% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 16 | 11 | 5 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 16 | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 16 | 10 | 5 | 1 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 62% | 31% | 6% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 15 | 10 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 15 | 11 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 14 | 8 | 6 | 0 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 57% | 43% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 9 | 5 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 60% | 33% | 7% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 16 | 7 | 7 | 1 | 1 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 44% | 44% | 6% | 6% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 14 | 10 | 3 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 71% | 21% | 7% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 14 | 9 | 5 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 16 | 6 | 9 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 38% | 56% | 6% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 16 | 9<br>56% | 7<br>44% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 16 | 6<br>38% | 7<br>44% | 3<br>19% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 16 | 8<br>50% | 8<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 12 | 5<br>42% | 7<br>58% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 15 | 6<br>40% | 6<br>40% | 2<br>13% | 1<br>7% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 14 | 8<br>57% | 6<br>43% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Melfyn Wyn Hopkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lynsey Harper | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.